**Lesley Griffiths Fel AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Medi 2020

Annwyl Mick

**Adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Amaethyddiaeth**

Diolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol am y gwelliannau a wnaed i ddarpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn y Bil Amaethyddiaeth yn ystod cyfnodau diwygio Tŷ'r Cyffredin. Rwyf wedi ystyried yr argymhellion a wnaed, ac mae fy ymateb yn Atodiad 1. Fel y cytunwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 2 yn adroddiad cyntaf y Pwyllgor hwn ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil, ceir crynodeb llawn o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn Atodiad 2.

Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth yn Nhŷ'r Cyffredin, a chwblhaodd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 28 Gorffennaf. Nid yw'r Cyfnod Adrodd wedi'i drefnu eto, ond mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i fonitro cynnydd y Bil ac mae'r arwyddion diweddaraf yn awgrymu y disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd mis Hydref.

Mae'n bleser gennyf hysbysu'r Pwyllgor, yn dilyn wythnosau lawer o gydweithio agos rhwng swyddogion o bob un o'r pedair gweinyddiaeth, bod gwelliannau'r llywodraeth i gymalau 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid) a 37 (rheoleiddio cynhyrchion organig) wedi'u cyflwyno a'u cytuno yn ystod y Cyfnod Pwyllgor (Arglwyddi). Mae'r gwelliannau hyn yn ychwanegu gofynion priodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad y Gweinyddiaethau Datganoledig cyn arfer pwerau o dan y darpariaethau hyn. Credaf fod hwn yn ateb boddhaol i'r pryderon a oedd yn weddill, y gwnes yn glir, yn fy sesiwn dystiolaeth ar 16 Mawrth eu bod yn faterion llinell goch yr oedd angen mynd i'r afael â hwy cyn y gallwn fod mewn sefyllfa i argymell cytuno ar gydsyniad deddfwriaethol i'r Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod Cyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi, gwnaed diwygiadau i gymalau 42 a 53 hefyd. Cafodd cymal 42(4) a (5), a fyddai wedi rhoi pwerau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol, ei ddileu. Diwygiwyd cymal 53 i ganiatáu cychwyn pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth yn gynnar yn y Bil. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pwerau ar waith erbyn diwedd y cyfnod gweithredu (31 Rhagfyr 2020) i'n galluogi, er enghraifft, i barhau i ddarparu cymorth ariannol i ffermwyr yng Nghymru yn 2021. Bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach, gyda manylion y diwygiadau hyn i gymalau 32, 37, 42 a 53, yn cael ei osod yn fuan i chi ei ystyried.

Unwaith eto, hoffwn ailadrodd pwysigrwydd y Bil hwn fel cyfrwng i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad i amaethyddiaeth Cymru wrth i ni barhau i ddatblygu'r sylfeini ar gyfer ein Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ein hunain, i'w gyflwyno yn nhymor nesaf y Senedd fel y nodir yn fy natganiad llafar ar 8 Gorffennaf.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**ATODIAD 1**

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (a osodwyd ar 23 Gorffennaf 2020)**

| Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | |
| **Argymhelliad 1**<br><br>Dylai'r Gweinidog ailedrych ar argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil a dylai ddarparu ymateb priodol a chynhwysfawr i'r Pwyllgor.<br><br>“Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom yn esbonio i ba raddau y mae'r Bil yn ymwneud ag unrhyw fframwaith cyffredin ac, os yw'n briodol, nodi'n glir y darpariaethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r fframwaith hwnnw.” | **Derbyn**<br><br>Mae'r Mesur Amaethyddiaeth yn fil fframwaith yn yr ystyr ei fod yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud darpariaeth, drwy is-ddeddfwriaeth, i alluogi parhau i ddarparu cymorth amaethyddol y tu hwnt i 2020 a sicrhau bod sectorau amaethyddol yn y DU yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni adael yr UE. Yn achos Lloegr, mae'r Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol sydd ei angen i ddisodli'r PAC hefyd a chreu system ddomestig newydd yn seiliedig ar yr egwyddor o dalu arian cyhoeddus am gyflenwi nwyddau cyhoeddus.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer Fframwaith Cyffredin y DU nac yn ei roi ar waith. Fel y nodwyd yn fy ymateb blaenorol, mae llywodraethau pob un o'r pedair gwlad, yn dilyn trafodaethau helaeth, wedi cytuno mai'r ffordd orau o reoli Fframwaith Cyffredin y DU ar gyfer Cymorth Amaethyddol fyddai drwy Goncordat Gweinidogol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu i sicrhau cydgysylltu a deialog effeithiol ar gymorth amaethyddol rhwng y pedair llywodraeth. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ddatblygu'r fframwaith anneddfwriaethol hwn y disgwylir iddo gwmpasu meysydd fel ymyrryd yn y farchnad, casglu data a rhannu trefniadau ochr yn ochr â threfniadau i leihau biwrocratiaeth a darparu eglurder ar gyfer daliadau trawsffiniol. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw'r diwygiadau i gymal 32 wedi’u gwneud o ganlyniad i newid yn safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch adnabod ac olrhain anifeiliaid, ac a arweiniodd hyn at gais gan y Gweinidog i ddiwygio'r cymal dan sylw. | **Derbyn**<br><br>Mae cymal 32(2) yn diwygio adran 8(1)(a) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i roi 'the means of identifying animals' yn lle 'the marking of animals’. Yn flaenorol, roedd y gwelliant o sylwedd wedi'i gyfyngu i Loegr. Mae'r diwygiad yn dileu unrhyw botensial ar gyfer amwysedd pan wneir is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adnabod anifeiliaid o dan adran 8(1)(a), gan ei fod yn sicrhau bod datblygiadau newydd mewn technoleg a methodoleg o adnabod anifeiliaid |

| | |
|---|---|
| | yn cael eu cwmpasu gan y ddarpariaeth, megis defnyddio dulliau adnabod electronig. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ddatblygu ein priod bolisïau ar adnabod ac olrhain anifeiliaid. Mae angen diwygio'r cymal hwn, gan ehangu ei gymhwysedd i Gymru, er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-fynd ac yn defnyddio pwerau cyfreithiol cyson i wneud newidiadau a fydd yn cefnogi masnachu trawsffiniol di-dor.<br><br>Diwygiwyd cymal 32(3)-(4) er mwyn datgymhwyso darpariaethau penodol o Reoliadau'r UE mewn perthynas â Chymru. Roedd y datgymhwyso wedi'i gyfyngu i Loegr o'r blaen. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau a wneir gan offeryn statudol ac sy'n ymwneud â systemau ar gyfer adnabod a rheoleiddio anifeiliaid buchol, o deulu'r ddafad ac o deulu'r afr. Ystyrir bod angen y gwelliant er mwyn diogelu buddiannau Cymru, gan fod deddfwriaeth yr UE yn y maes polisi hwn yn nodi – erbyn mis Ebrill 2024 - y bydd darpariaethau cyfraith yr UE dan sylw yn peidio â bod yn gymwys i aelod-wladwriaethau.<br><br>Pe na bai'r diwygiad i gymal 32(3) a (4) wedi'i sicrhau, byddai Lloegr yn gallu datgymhwyso'r ddeddfwriaeth honno a gwneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 1981 yn ei lle. Pe bai darpariaethau'r UE yn cael eu datgymhwyso yn Lloegr yn unig, naill ai'n unochrog neu i adlewyrchu sefyllfa'r UE, gallai problemau godi mewn perthynas â masnach drawsffiniol gan y byddai Cymru a Lloegr yn gweithredu o dan reolau gwahanol, a allai achosi dryswch i'r diwydiant ac a allai beryglu rheoliadau allforio.<br><br>Gallai hefyd beryglu gweithredu hysbysiadau cyn symud ac adrodd yn electronig am symud da byw sy'n ganolog i'r system amlrywogaeth newydd sydd ar fin dod yng Nghymru, a'i gallu i rannu gwybodaeth a data â gweinyddiaethau eraill. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â'r pryderon nad ydynt wedi'u datrys mewn perthynas â chymalau 32, 36 a 37. Dylai'r wybodaeth gynnwys manylion ynghylch sut y bydd pryderon y Gweinidog yn cael eu datrys, hynny yw, p'un a fydd hyn yn | **Derbyn**<br><br>Yn dilyn wythnosau lawer o gydweithio agos rhwng swyddogion o bob un o bedair gweinyddiaeth y DU, cyflwynwyd a chytunwyd ar welliannau'r llywodraeth i gymalau 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid) a 37 (rheoleiddio cynhyrchion organig) yng Nghyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi. Mae'r gwelliannau hyn yn ychwanegu gofynion |

| | |
|---|---|
| digwydd ar ffurf datrysiadau deddfwriaethol neu ddatrysiadau anneddfwriaethol. | priodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad y Gweinyddiaethau Datganoledig cyn arfer pwerau o dan y darpariaethau hyn. Bydd manylion ychwanegol sy'n disgrifio'r gwelliannau yn cael eu nodi yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sydd i'w osod yn fuan. Credaf fod hwn yn ateb boddhaol i'r pryderon a oedd yn weddill, y gwnes yn glir, yn fy sesiwn dystiolaeth ar 16 Mawrth eu bod yn faterion llinell goch yr oedd angen mynd i'r afael â hwy cyn y gallwn fod mewn sefyllfa i argymell cytuno ar gydsyniad deddfwriaethol i'r Senedd. |
| **Argymhelliad 4**<br><br>Dylai'r Gweinidog gadarnhau a gyflwynwyd y gwelliannau i Atodlen 5 ar gais y Gweinidog. | **Derbyn**<br><br>Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil hwn, a'r Bil Amaethyddiaeth blaenorol, mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i sicrhau bod y Bil yn cynnwys y pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru. Cyflwynwyd gwelliannau i Atodlen 5, a darpariaethau eraill sy'n ymwneud â Chymru, ar fy nghais. |
| **Argymhelliad 5**<br><br>Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am effaith y diwygiadau a wnaed i baragraffau 2 a 4 o Atodlen 5, yn benodol ynghylch a yw'r diwygiadau yn gyfystyr ag ehangu'r pwerau gwneud rheoliadau yn y paragraffau hynny. | **Derbyn**<br><br>Roedd y diffyg eglurder gyda'r geiriad 'simplifying and improving' yn bryder a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor hwn wrth graffu ar y Bil blaenorol. Ar ôl ystyried hyn, gofynnais am y gwelliannau hyn i baragraffau 2 a 4 o Atodlen 5 i sicrhau y gellir defnyddio'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan y darpariaethau hyn at ddibenion penodedig. |
| **Argymhelliad 6**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor am safbwynt diwygiedig Llywodraeth ynghylch yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 40 i 42 o'r Bil. | **Derbyn**<br><br>Amlinellwyd y manylion am y cymal WTO yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, paragraffau 55 a 56 lle y dywedodd bod is-gymalau (42) (4) a (5) yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu darpariaethau mewn rheoliadau ar gyfer casglu gwybodaeth at ddibenion cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth, gan gynnwys gan Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amaethyddiaeth ac yn ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn ddomestig.<br><br>Yn dilyn cynrychiolaeth gennyf fi a'r Gweinidog Ewing, ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, |

| | |
|---|---|
| | Bwyd a Materion Gwledig, Victoria Prentis AS, ataf ar 6 Gorffennaf yn cadarnhau dileu cymal 42(4) a (5). |
| **Argymhelliad 7**<br><br>Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor am y cytundeb a gafodd ei daro gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch arfer y pwerau i wneud rheoliadau yng nghymalau 40 i 42. | **Derbyn**<br><br>Mae'r cytundeb dwyochrog rhwng llywodraethau Cymru a'r DU ym mis Mawrth 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau a roddwyd o dan gymalau 40 i 42. Mae'r cytundeb yn nodi mecanwaith cadarn a thryloyw hefyd ar gyfer cynnwys Gweinidogion Cymru wrth weithredu'r rheoliadau, gan gynnwys mecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau, gan adlewyrchu trafodaethau helaeth gyda Llywodraeth y DU (Defra a Swyddfa'r Cabinet).<br><br>Yn ei llythyr ataf dyddiedig 6 Gorffennaf, cadarnhaodd y Gweinidog Prentis fwriad Llywodraeth y DU hefyd i ymgorffori'r ymrwymiadau a nodwyd yn y cytundeb dwyochrog mewn concordat i'w ddatblygu rhwng llywodraethau ein pedair gwlad. |
| **Argymhelliad 8**<br><br>Dylai'r Gweinidog ymateb i bob argymhelliad yn yr adroddiad hwn ar fyrder, a hynny cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil. | **Derbyn**<br><br>Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y Senedd ddigon o amser i ystyried y darpariaethau hynny yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt. Rwyf wedi ymateb i'r holl argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hyd yma a byddaf yn ymateb i argymhellion yn y dyfodol mewn modd amserol. |

# ATODIAD 2: Pwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil Amaethyddiaeth

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (Y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2020. Ar gais Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn perthynas â materion datganoledig. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd ar 12 Chwefror. Gosodwyd Memorandwm atodol ar 11 Mehefin, yn nodi'r gwelliannau a wnaed i ddarpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn ystod camau diwygio Tŷ'r Cyffredin.

Mae tabl 1 yn rhoi manylion pwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau'r Bil. Mae'n rhoi cyfiawnhad pam ei bod yn briodol ceisio'r pwerau hyn ac yn amlinellu gweithdrefn y Senedd sydd ynghlwm wrth bob pŵer. Bydd y ddogfen hon yn cael ei darparu i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd mewn ymateb i Argymhelliad 2 yn adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth.

## Trosolwg

<u>Pwerau'n cael eu cymryd i Weinidogion Cymru drwy'r Bil</u>

Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn gyfrwng deddfwriaethol pwysig i roi sefydlogrwydd a pharhad mawr ei angen ar ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd eithriadol. Mae angen pwerau sy'n cael eu cymryd i Weinidogion Cymru er mwyn gallu parhau i ddarparu'r cymorth amaethyddol presennol yng Nghymru ar ôl 2020 ac i sicrhau bod sectorau amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Nid yw pwerau i Weinidogion Cymru weithredu neu bontio tuag at gymorth ariannol newydd, fel y darparwyd ar ei gyfer yn flaenorol o dan baragraffau 1 i 3 o Atodlen 3 i'r Bil Amaethyddiaeth a gyflwynwyd i Senedd y DU ym mis Medi 2018, yn cael eu cymryd yn y Bil hwn. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd darpariaeth briodol yn cael ei gwneud gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) i'w gyflwyno yn nhymor nesaf y Senedd. Mae Atodlen 5 ("darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru"), a nifer fach o ddarpariaethau cysylltiedig, yn ddarostyngedig i gymal machlud (cymal 44) a disgwylir iddynt ddod i ben ar ddiwedd 2024 yn unol â'r ddarpariaeth honno.

<u>Gweithdrefn y Senedd ar gyfer pwerau dirprwyedig yn y Bil</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod pwerau i Weinidogion Cymru yn y Bil hwn sydd â goblygiadau polisi sylweddol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu'n briodol ar yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y darpariaethau hynny. Ar gyfer y pwerau hynny i wneud rheoliadau lle ystyrir bod y pwnc yn fwy technegol ei natur, lle y gallai fod yn briodol deddfu'n gyflym a lle mae disgresiwn Gweinidogion Cymru dros yr is-ddeddfwriaeth yn fwy cyfyngedig, dewiswyd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar is-ddeddfwriaeth.

## Tabl 1: Y cyfiawnhad dros bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan ddarpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU

| Darpariaeth: Pŵer a Roddwyd | Cyfiawnhad | Gweithdrefn Ddeddfwriaethol |
|---|---|---|
| <u>Cymal 31 (gwrteithiau):</u><br><br>Diwygiadau i bŵer dirprwyedig presennol yn adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 i reoleiddio gwrteithiau ar sail eu swyddogaeth ac i bennu materion ychwanegol y gellir gwneud darpariaeth ar eu cyfer mewn perthynas â rheoleiddio gwrteithiau. | Mae pŵer dirprwyedig eisoes yn bodoli yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 i reoleiddio gwrteithiau yn seiliedig ar eu cynnwys a'u cyfansoddiad (adran 74A). Mae cymal 31(2) yn diwygio'r diffiniad o "wrtaith", y darperir ar ei gyfer yn adran 66 o'r Ddeddf Amaethyddiaeth er mwyn caniatáu i amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau gael eu rheoleiddio fel gwrteithiau. Mae cymal 31(3) yn diwygio'r pŵer dirprwyedig presennol (adran 74A(1)) i alluogi i reoliadau gael eu gwneud sy'n nodi gofynion diogelwch ac ansawdd ar gyfer gwrteithiau drwy gyfeirio at swyddogaeth, yn ogystal â chynnwys neu gyfansoddiad. Ymgynghorir ar y swyddogaethau sydd i'w rheoleiddio ac mae'n bosibl y gallant gael eu cyflwyno fesul cam. Bydd angen i'r swyddogaethau a reoleiddir newid er mwyn cadw i fyny â datblygiadau gwyddonol.<br><br>Mae angen gwelliannau hefyd i alluogi rheoliadau a wneir yn unol â'r cymal hwn i egluro'r gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth i'w cynnal ar wrteithiau yn ôl eu cynnwys, eu cyfansoddiad neu eu swyddogaeth i asesu eu cydymffurfiaeth â gofynion statudol neu liniaru risgiau mewn modd arall i iechyd a diogelwch pobl, planhigion, anifeiliaid neu'r amgylchedd sy'n digwydd yn sgil gwrteithiau. Mae'n bosibl y gall rheoliadau ddarparu ar gyfer swyddogaethau sydd i'w rhoi i awdurdod cyhoeddus i fonitro neu orfodi cydymffurfiaeth ac mae'n bosibl y gallant ei gwneud yn ofynnol i gadw gwybodaeth sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth gwrteithiau â gofynion statudol. Bydd y cymal yn galluogi diwygio neu | Bydd y rheoliadau cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n cynnwys darpariaeth o dan adran 74A(1A) i (1E) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau dilynol a wneir gan Weinidogion Cymru, o dan adran 74A(1A)(b) (sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus sy'n ymwneud â goruchwylio a rheoleiddio'r farchnad) neu (1E)(a)(i) neu (ii) (diwygio a diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwrteithiau) hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (cymal 31(5), sy'n diwygio adran 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970). Fel arall, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys (gweler adran 84(2), Deddf Amaethyddiaeth 1970). |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwrteithiau. | |
| <u>Cymalau 36 a 37:</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardystio cynhyrchion organig a rheolaethau mewnforio ac allforio (os ac i'r graddau y byddai darpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd (gan anwybyddu unrhyw ofyniad am gydsyniad unrhyw berson) (cymal 37(1)(c)). | Mae'r pŵer hwn yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau organig newydd, gan gynnwys addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir (os ac i'r graddau y byddai'r ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd). Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflawni amcanion polisi domestig a gwneud newidiadau a negodwyd gyda phartneriaid masnachu mawr i hwyluso gofynion cytundebau masnach. Bydd hyn yn sicrhau y gall sector organig y DU barhau i weithredu i safonau cynhyrchu organig sy'n arwain y byd, parhau'n gystadleuol, addasu gyda'r wyddoniaeth ddiweddaraf, a chael mynediad i farchnadoedd byd-eang.<br><br>Caiff rheoliadau a wneir o dan gymal 36 wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas ag ardystio cynhyrchion organig (cymal 36(1)), mewnforio ac allforio cynhyrchion organig (cymal 36(5) a (7)) a gorfodi rheoliadau organig (cymal 36(8)). Mae'r pwerau hyn ar gael i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig mewn rhai amgylchiadau (gweler cymal 37(1)(b) i (d)). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau os ac i'r graddau y byddai darpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd (gan anwybyddu unrhyw ofyniad am gydsyniad unrhyw berson) "(cymal 37(1)(c)). Gellir gwneud rheoliadau hefyd o dan gymal 36 gan yr Ysgrifennydd Gwladol (cymal 37(1)(a)). Mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymal 36 y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan y ddarpariaeth honno (cymal 37(2)). | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol<br><br>lle —<br><br>(a) mae'r rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adran 36(1) ac yn cynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn adran 36(3), neu<br><br>(b) bod y rheoliadau wedi eu gwneud o dan isadran (1), (5) neu (7) o adran 36 a hwy yw'r rheoliadau cyntaf i'w gwneud o dan yr isadran honno gan yr awdurdod sy'n eu gwneud.<br><br>Fel arall, mae rheoliadau o dan gymal 36 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 47(5) yn gymwys, felly'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol). |

| | | |
|---|---|---|
| <u>Cymal 44(7) (hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru):</u><br><br>Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn perthynas â'r adran hon. | Mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd wrth iddynt graffu ar y Bil Amaethyddol blaenorol, a gyflwynwyd yn 2018, mae Atodlen 5 (darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru) a nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn ddarostyngedig i ddarpariaeth machlud (cymal 44) a byddant yn dod i ben ar ddiwedd 2024 yn unol â'r ddarpariaeth honno.<br><br>Mae''r pŵer dirprwyedig yng nghymal 44(7) yn ofynnol i sicrhau y gall Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol ac arbed angenrheidiol mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth machlud. | Mae rheoliadau o dan y cymal hwn sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda neu heb ddarpariaeth arall) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Mae rheoliadau eraill o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. |
| <u>Cymal 50(1):</u><br><br>Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol drwy reoliadau mewn cysylltiad ag—<br><br>(i) adran 32(3) a (4), i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru,<br><br>(ii) adran 43 ac Atodlen 5,<br><br>(iii) adran 44, a<br><br>(iv) adran 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru. | Nid yw'n bosibl sefydlu'r holl ddarpariaethau canlyniadol, atodol, trosiannol, darfodol ac arbedion y gallai fod eu hangen o flaen llaw, yn enwedig o ystyried nad ydym yn gwybod canlyniad trafodaethau ymadael yr UE eto; mae angen pŵer i osgoi unrhyw ansicrwydd cyfreithiol neu fylchau cyfreithiol ar ôl i'r Bil ddod i rym. Mae'n bosibl y gall rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer hwn addasu deddfwriaeth sylfaenol, deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir neu is-ddeddfwriaeth (cymal 50(2)). | Mae rheoliadau o dan adran 50(1) sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda neu heb ddarpariaeth arall) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Mae rheoliadau eraill o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. |
| <u>Cymal 50(5):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol, | Pan ddaw darpariaeth newydd i rym, yn aml mae angen gwneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbedion er mwyn sicrhau pontio llyfn. Nid yw'n bosibl sefydlu’r holl ddarpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed y gallai fod eu hangen ymlaen llaw. Fel gyda chymal 50(1), mae angen y | Dim gweithdrefn |

| | | |
|---|---|---|
| ddarfodol neu arbed mewn perthynas ag—<br><br>(i) adran 32(3) a (4), i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru,<br><br>(ii) adran 43 ac Atodlen 5,<br><br>(iii) adran 44, a<br><br>(iv) adran 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru. | pŵer hwn i osgoi unrhyw ansicrwydd cyfreithiol neu fylchau cyfreithiol ar ôl i'r Bil ddod i rym. | |
| <u>Cymal 53(3):</u><br><br>Pwerau, i'r graddau nas dygwyd i rym gan is-adran (1)(a) neu (b), i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir drwy offeryn statudol bennu—<br><br>(a) i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru—<br><br>(i) adran 32(3) a (4),<br><br>(i) paragraffau 10 i 16 ac 18 o Atodlen 3, a<br><br>(iii) adran 34 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny,<br><br>(b) Rhan 5 o Atodlen 5, ac adran 43 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno, a<br><br>(c) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 7, ac adran 49 i'r graddau y | Mae'r cymal hwn yn cynnwys pwerau i ddod â darpariaethau penodol o'r Bil i rym drwy reoliadau cychwyn ar yr adeg briodol. Yn rhinwedd is-adran (5), gellir pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. | Dim gweithdrefn |

| | | |
|---|---|---|
| mae'n ymwneud â'r Rhannau hynny. | | |
| <u>Atodlen 3, para 6(7):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir mewn offeryn statudol i ddiwygio adran 84 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn-<br><br>a) cynnwys person yn y diffiniad o "awdurdod proffesiynol" neu ddileu person ohono;<br><br>b) adlewyrchu newidiadau yn enw neu drefniadaeth fewnol unrhyw gorff a grybwyllir yn y diffiniad hwnnw. | O dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 gellir penodi cymrodeddwr drwy gytundeb rhwng y partïon i ddatrys anghydfod, neu os na all y partïon gytuno gallant wneud cais i Lywydd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ("RICS") i benodi cymrodeddwr. Mae adborth gan y diwydiant wedi tynnu sylw at ddiffyg cymrodeddwyr yn y sector i ddatrys anghydfodau tenantiaeth.<br><br>Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o bersonau a gaiff benodi cymrodeddwr o dan Ddeddf 1986 mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ehangu'r gronfa o gymrodeddwyr, gan ddarparu mwy o ddewis a gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch i denantiaid a landlordiaid. Bydd hyn yn galluogi'r rhestr i gael ei diweddaru o bryd i'w gilydd er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau y gallai fod eu hangen (e.e. os bydd y sefydliadau rhestredig yn newid eu henw neu os oes angen ychwanegu sefydliadau newydd). | Gweithdrefn ddatrys negyddol |
| <u>Atodlen 3, para 7:</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i denant daliad amaethyddol atgyfeirio am gyflafareddu neu geisiadau am benderfyniad gan drydydd parti am gydsyniad landlord i weithgareddau sydd wedi'u cyfyngu o dan delerau eu cytundeb tenantiaeth neu geisiadau am amrywio telerau | Ysgrifennwyd y rhan fwyaf o brydlesau'r Ddeddf Daliadau Amaethyddol dros ugain mlynedd yn ôl mewn tirwedd fasnachol a pholisi wahanol iawn. Mae llawer yn cynnwys cymalau cyfyngu safonol ar gyfer landlordiaid i atal y tenant rhag ymgymryd â gweithgareddau heb i'r tenant gael caniatâd y landlord yn gyntaf. Mae cymalau cyfyngol o'r fath yn cyfyngu ar allu rhai tenantiaid i ddatblygu busnes cynhyrchiol a hyfyw a bodloni gofynion statudol. Mae angen y pwerau i wneud rheoliadau, a roddir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, er mwyn sicrhau nad yw tenantiaid o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn cael eu cyfyngu'n annheg fel hyn. | Gweithdrefn ddatrys negyddol |

| | | |
|---|---|---|
| lle mae'r ceisiadau hynny'n ymwneud â'r tenant yn cael cymorth ariannol mewn amodau marchnad eithriadol neu os yw'r tenant yn bodloni rhwymedigaeth statudol. | Bydd manylion proses datrys anghydfodau'n cael eu cynllunio a'u gweithredu mewn ymgynghoriad â'r diwydiant, gan gynnwys cynrychiolwyr tenantiaid a landlordiaid, er mwyn sicrhau dull cytbwys rhwng buddiannau'r ddwy ochr. | |
| <u>Atodlen 3, para 17:</u><br><br>Mae paragraff 17 yn diwygio adran 39(8) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud rheoliadau sy'n pennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw person yn addas i fod yn denant daliad. | Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn anghydnaws ag amcanion polisi cyfredol o wella cynhyrchiant ffermio drwy annog trosglwyddo tir i ddwylo ffermwyr masnachol medrus. Mae angen y pŵer hwn i wneud rheoliadau i ddiweddaru'r meini prawf sy'n llywodraethu addasrwydd tenant i olynu i gytundeb Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn galluogi ffermwyr masnachol cynhyrchiol i olynu i ddaliadau'r Ddeddf Daliadau Amaethyddol yn y dyfodol. Mae ymgynghoriadau diweddar yng Nghymru a Lloegr ar y mater hwn yn dangos cefnogaeth eang i ddiweddaru'r darpariaethau.<br><br>Bydd manylion y 'Prawf Cymhwysedd Busnes' newydd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad pellach â'r diwydiant gan sicrhau bod cynrychiolwyr tenantiaid a landlordiaid yn gallu cyfrannu eu barn ar y meini prawf mwyaf priodol i'w cynnwys. Yn ogystal, mae'n bwysig bod modd adolygu a diweddaru'r rheoliadau'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad proffesiynol parhaus ym maes ffermio a sgiliau busnes. | Gweithdrefn ddatrys negyddol |
| <u>Atodlen 5, para 2(1):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol. | Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Cynllun y Taliad Sylfaenol at un neu fwy o ddibenion penodedig yng ngoleuni'r profiad o weithredu'r cynllun ac adborth gan randdeiliaid.<br><br>Mae ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ar 31 Gorffennaf 2020 yn gofyn am farn ar gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth (UE) a ddargedwir sy'n llywodraethu Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod unrhyw gyfnod pontio interim, hyd nes y | Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol) |

| | | |
|---|---|---|
| | darperir pwerau drwy Fil Amaethyddiaeth (Cymru), yn nhymor nesaf y Senedd.<br><br>Mae'r cynigion yn cynnwys addasiadau i wneud i'r cynllun weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol; dileu darpariaethau sydd wedi disbyddu; dileu neu leihau beichiau a sicrhau bod y sancsiynau a ddefnyddir yn briodol ac yn gymesur. | |
| <u>Atodlen 5, para 3(1):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer parhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol y tu hwnt i 2020, gan gynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf i daliadau uniongyrchol ar gyfer Cymru | Mae angen y pŵer hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i barhau i weithredu Cynllun y Taliad Sylfaenol y tu hwnt i 2020. Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi ymrwymo i ymestyn Cynllun y Taliad Sylfaenol yn 2021.<br><br>O dan delerau'r Cytundeb Ymadael, mae Cynllun y Taliad Sylfaenol 2020 yn cael ei ddarparu fel cynllun domestig cyfatebol, yn unol â Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.<br><br>Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ar 31 Gorffennaf yn gofyn am farn ar gynigion gan gynnwys parhau i ddarparu cymorth amaethyddol drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol estynedig hyd nes y darperir pwerau newydd drwy Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor nesaf y Senedd. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |
| <u>Atodlen 5, para 4(1):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. | Mae angen y pŵer hwn i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau i ddeddfwriaeth lorweddol yr UE er mwyn dileu cymhlethdodau. Gellir arfer y pŵer i wneud newidiadau at un neu fwy o ddibenion a bennir ym mharagraff 4(2). Mae'r pŵer yn caniatáu i addasiadau gael eu gwneud i gysoni rheolau'r cynllun ag amgylchiadau domestig, yng ngoleuni profiad parhaus o weithredu'r cynlluniau ac mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid.<br><br>Mae ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ar 31 Gorffennaf 2020 yn gofyn am farn ar gynigion i wneud diwygiadau i fonitro ac ariannu cynlluniau PAC domestig i gyd-fynd â | Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol) |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a chraffu gan y Senedd, hyd nes y darperir pwerau newydd drwy Fil Amaethyddiaeth (Cymru), yn nhymor nesaf y Senedd. | |
| <u>Atodlen 5, para 5(1):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. | Mae angen y pŵer hwn i ganiatáu i Weinidogion Cymru weithredu cynllun sy'n cyfateb yn ddomestig i Gynllun Datblygu Gwledig yr UE yng Nghymru.<br><br>Mae ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ar 31 Gorffennaf 2020 yn gofyn am farn ar gynigion i gysoni datblygu gwledig â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, craffu gan y Senedd a deddfwriaeth unigryw i Gymru gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, hyd nes y darperir pwerau newydd drwy Fil Amaethyddiaeth (Cymru), yn nhymor nesaf y Senedd.<br><br>Mae'r cynigion yn berthnasol i unrhyw drefniadau cymorth datblygu gwledig domestig newydd. Bydd Rhaglen Datblygu Gwledig bresennol Cymru 2014-2020 yn parhau i gael ei llywodraethu gan Gyfraith yr UE yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymadael. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |
| <u>Atodlen 5, para 8(1):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion newid y modd y mae darpariaethau deddfwriaeth o'r fath yn gweithredu, i'r graddau y maent yn cael effaith mewn | Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio pwerau ymyrraeth gyhoeddus a chymorth storio preifat yn fwy effeithiol mewn amgylchiadau eithriadol. Natur amodau eithriadol y farchnad yw na ellir eu rhagweld, felly ni allwn wybod, er enghraifft, pa gynhyrchion y gallai fod angen ymyrraeth arnynt a phryd. Mae'r cymal hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru deilwra'r mathau hyn o gymorth i amodau eithriadol penodol. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol) |

| | | |
|---|---|---|
| perthynas â Chymru mewn cysylltiad ag amodau eithriadol yn y farchnad sy'n destun datganiad o dan baragraff 6 o Atodlen 5 (datganiad ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad). | | |
| <u>Atodlen 5, para 8(2):</u><br>Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion penodedig. | Ar hyn o bryd mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn darparu pwerau i gael gwared ar gynhyrchion dros ben o'r farchnad a sefydlogi prisiau'r farchnad drwy brynu, storio ac ailwerthu nwyddau penodol unwaith y bydd prisiau wedi codi (Ymyrraeth Gyhoeddus) neu drwy dalu cynhyrchwyr i storio cynhyrchion am gyfnod y cytunwyd arno i'w symud o'r farchnad (Cymorth Storio Preifat). Bydd y pwerau domestig hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid gweithrediad y darpariaethau hyn mewn ffyrdd na ddarperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn y ddeddfwriaeth bresennol, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu teilwra i'r farchnad ddomestig. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newid y cynhyrchion sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau cymorth penodol, i'w teilwra i amodau'r farchnad ddomestig. Mae pŵer penodol hefyd i ddiddymu'r cynlluniau hyn yn raddol wrth i'r sector ddod yn hunanddibynnol. | Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol) |
| <u>Atodlen 5, para 9(2):</u><br>Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn o'r fath ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o weithgareddau'r | Bwriad y pŵer hwn yw gwella tryloywder casglu data drwy'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth a gwella'r broses o ledaenu'r wybodaeth hon. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gasglu a rhannu data sy'n berthnasol i'r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth. Rhaid i ofyniad i ddarparu gwybodaeth wasanaethu dibenion penodol. Rhaid i bob diben fod yn y rhestr ym mharagraff 11(4), neu gael ei gwmpasu gan y rhestr, gan gynnwys cynhyrchiant, tegwch a | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |

| | | |
|---|---|---|
| person sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi os yw'r gweithgareddau yng Nghymru. | thryloywder y gadwyn gyflenwi, iechyd a lles anifeiliaid, a rheoli risg. | |
| <u>Atodlen 5, para 14(1):</u><br>Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan baragraff 9(1) neu (2) o Atodlen 5 (cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth) | Mae angen pŵer i orfodi gofynion i ddarparu data er mwyn sicrhau bod pwerau i gasglu data yn effeithiol ac i deilwra cosbau am fethu â darparu gwybodaeth fel eu bod yn gymesur, ac i ganiatáu ar gyfer technoleg ac amcanion polisi sy'n esblygu. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |
| <u>Atodlen 5, para 15(1):</u><br>Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau, mewn perthynas â chynhyrchion sydd o fewn sector penodedig ac sy'n cael eu marchnata yng Nghymru, wneud darpariaethau ynghylch y safonau y mae'n rhaid i'r cynhyrchion hynny gydymffurfio â hwy | Bydd y pŵer hwn yn golygu y gellir teilwra a moderneiddio'r safonau marchnata presennol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer cynhyrchion amaethyddol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru. Mae safonau marchnata'n dechnegol eu natur, a bydd y pŵer hwn yn golygu y gellir eu haddasu i gyd-fynd â moderneiddio ac i adlewyrchu'r farchnad amaethyddol ddomestig. Mewn perthynas â chynhyrchion nad oes safonau marchnata'r UE yn bodoli ar eu cyfer (gan gynnwys cynhyrchion newydd y gellir eu hychwanegu at baragraff 16 gan ddefnyddio'r pŵer o dan baragraff 16(3)), mae'r pŵer ym mharagraff 15(1) yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gyflwyno safonau newydd a fydd wedi'u teilwra i gyd-fynd â'r sectorau amaethyddol domestig.<br>Mae'n bosibl y gall rheoliadau a wneir o dan baragraff 15(1) ddarparu ar gyfer gorfodi safonau marchnata hefyd. Yn unol â pharagraff 15(3) gellir gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion gorfodi gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) rhoi pwerau mynediad, gosod cosbau ariannol, creu troseddau y gellir eu cosbi drwy ddirwy ac apelau. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |

| | | |
|---|---|---|
| <u>Atodlen 5, para 16(3):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio paragraffau 15 ac 16 at y diben neu mewn perthynas â'r diben o—<br><br>(a) ychwanegu neu dynnu cynnyrch amaethyddol o baragraff 16(1);<br><br>(b) newid y disgrifiad o gynnyrch amaethyddol ym mharagraff 16(1). | Mae'r cynhyrchion a restrir ym mharagraff 16(1) yn adlewyrchu'r cynhyrchion a gwmpesir gan gyfraith bresennol safonau marchnata i raddau helaeth. Gall hyn newid wrth i sectorau newydd ddatblygu a dod yn fwyfwy pwysig. Felly, mae angen pŵer i wneud rheoliadau i alluogi diwygiadau i baragraffau 15 ac 16 o Atodlen 5 fel y gellir diweddaru'r rhestr o gynhyrchion a'u disgrifiad dros amser, ac y gellir gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i baragraff 15 o ganlyniad i'r diwygiadau hynny i baragraff 16(1). | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |
| <u>Atodlen 5, para 17(1):</u><br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau buchol, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru | Mae angen y pŵer hwn i alluogi i ddarpariaethau dosbarthu carcasau ar gyfer lladd-dai yng Nghymru gael eu diweddaru. Bydd yn golygu y gellir teilwra rheoliadau sy'n ymwneud â dosbarthiad carcasau i weddu i'r sector domestig, er mwyn sicrhau nad yw'r rheolau hyn yn rhoi baich gormodol ar ffermwyr a gweithredwyr eraill yn y gadwyn cyflenwi bwyd ac i barhau i wneud yr un addasiadau ag a wneir i reolau ar lefel yr UE i sicrhau nad yw ffermwyr a lladd-dai Cymru dan anfantais.<br><br>Mae paragraff 17(2) yn nodi'r materion gorfodi y gallai rheoliadau o dan baragraff 17(1) eu cwmpasu gan gynnwys, er enghraifft, darparu gwybodaeth, rhoi pwerau mynediad, gosod cosbau, creu troseddau a darparu ar gyfer apelau. Mae hyn yn rhoi pwerau ar gyfer cyfundrefn orfodi effeithiol a bydd yn helpu i sicrhau dull cyson a theg o ymdrin â chosbau presennol pan gyflwynir rheolau newydd. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |